# Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2019

## Cefndir y farchnad

Bu dirywiad cyffredinol yn y cyfraddau twf byd-eang yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2019. Cafodd yr anghydfod parhaus rhwng masnach yr Unol Daleithiau a Tsieina effaith ar yr economi fyd-eang, yn enwedig ar economïau sy'n dibynnu'n drwm ar allforio. Mae twf yn yr Unol Daleithiau wedi aros yn lled gadarn wrth i fanteision diwygiadau'r Arlywydd Trump i'r dreth gorfforaethol ddod i rym. Mae'r ansicrwydd gwleidyddol ar draws Ewrop yn parhau; mae sylw pennaf y penawdau ar Brexit a'r cynnydd mewn poblyddiaeth ar draws Ardal yr Ewro.

Roedd y rhan fwyaf o'r marchnadoedd ecwiti datblygedig wedi sicrhau enillion cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Adferodd y marchnadoedd ecwiti yn ystod chwarter cyntaf 2019 ar ôl perfformiad siomedig yn 2018, sef y flwyddyn galendr a berfformiodd waethaf o ran y marchnadoedd ecwiti ers cwymp ariannol 2008. Roedd ecwitïau'r DU a'r Unol Daleithiau ymhlith y gwledydd datblygedig a berfformiodd orau, tra bod Japan wedi'i chael hi'n anodd oherwydd bod ei heconomi, gan mwyaf, yn seiliedig ar allforio ac oherwydd cryfder yr Yen.

Roedd yn stori wahanol i'r marchnadoedd datblygol yn ystod y cyfnod wrth iddynt lusgo ar ôl eu cymheiriaid yn y marchnadoedd datblygedig. Dioddefodd y marchnadoedd datblygol yn sgil y tensiynau masnachu cynyddol rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina, y cynnydd yn y cyfraddau llog a wnaed gan Gronfa Ffederal yr Unol Daleithiau, a'r cryfder newydd yn noler yr Unol Daleithiau. Gan fod canfyddiad bod mwy o risg yn y marchnadoedd datblygol, cawsant eu taro'n arbennig o galed wrth i fuddsoddwyr dynnu cyfalaf yn ôl i fuddsoddi mewn marchnadoedd mwy diogel. At hynny, yn noleri'r Unol Daleithiau y mae llawer o ddyledion y farchnad ddatblygol. Mae cryfder cynyddol y ddoler yn ei gwneud yn ddrutach i gorfforaethau'r farchnad ddatblygol weinyddu dyledion sydd yn noleri'r Unol Daleithiau.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

### Strategaethau Aml-ased

Mae strategaethau aml-ased wedi cael blwyddyn gymysg. Er eu bod yn cael eu hawgrymu fel dewis amgen yn lle strategaethau ecwiti, mae'r strategaethau aml-ased, yn anorfod, wedi cael eu clymu ag ecwitïau yn ystod y cyfnod. Mae'r chwe mis diwethaf, yn enwedig, yn dangos hyn, gyda strategaethau aml-ased yn disgyn

yn sylweddol yn ystod pedwerydd chwarter cythryblus 2018 ac yn yr un modd yn adfer yn ystod chwarter cyntaf 2019, gan ddilyn trywydd y marchnadoedd ecwiti bob tro. Fodd bynnag, daeth llai o anwadalrwydd i ran buddsoddwyr y strategaethau aml-ased yn ystod y cyfnod o gymharu ag ecwitïau. Golyga hynny, er na welodd y buddsoddwyr lefelau perfformiad cystal â'r marchnadoedd ecwiti yn ystod y 12 mis, roedd lefelau perfformiad yr asedau yn amrywio lawer yn llai.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Llywodraeth

Gostyngodd cynnyrch bondiau'r Llywodraeth yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, wrth i gynnyrch giltiau mynegrifol dros 5 mlynedd ostwng c0.2 y cant yn ystod y cyfnod, gyda'r mynegai yn cynhyrchu 5.7 y cant. Cododd y disgwyliadau chwyddiant dros y cyfnod, a chafodd hynny effaith gadarnhaol ar bris giltiau mynegrifol o'u cymharu â'u cymheiriaid enwol. Yn ystod ail chwarter 2018, roedd cynnyrch giltiau yn gymharol wastad wrth i ddata siomedig CMC achosi i Fanc Lloegr beidio â chodi'r cyfraddau llog fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, cynyddodd Banc Lloegr y cyfraddau llog yn ystod y chwarter dilynol oherwydd y cynnydd yn y pwysau o ran chwyddiant. At hynny, bu mwy o alw am asedau hafan ddiogel yn ystod ail hanner y cyfnod gan achosi i gynnyrch giltiau ostwng ac i brisiau bondiau gynyddu.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Eiddo

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r farchnad eiddo yn y DU wedi wynebu cyfuniad o heriau strwythurol difrifol ac ansicrwydd. Mae canolfannau trefol, yn enwedig, wedi cael eu taro'n galed gan yr amgylchedd hynod heriol ar gyfer manwerthwyr 'brics-a-morter'; ac aeth nifer o siopau adrannol mawr i'r wal. Mae'r ansicrwydd cyson ynghylch Brexit wedi achosi i fuddsoddwyr rhyngwladol ddal yn ôl ac mae hynny yn ei dro wedi achosi gostyngiad ym mhris y mannau preswyl uchaf eu safon, yn enwedig yn Llundain. Er y bu cyfle i gynhyrchu enillion mewn mannau diwydiannol a swyddfeydd dros y flwyddyn, mae'r dosbarth hwn o asedau wedi llusgo ar ôl yr asedau risg eraill.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Marchnadoedd preifat

Perfformiodd y marchnadoedd preifat byd-eang yn gymharol dda yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019. Roedd ecwitïau preifat yn perfformio'n well na'u cymheiriaid cyhoeddus; gellir priodoli hyn i gystadleuaeth gynyddol gan reolwyr ecwiti preifat, prynwyr strategol a chwmnïau newydd. Bu mwy fyth o weithgarwch ym maes eiddo tiriog preifat byd-eang yn yr Unol Daleithiau ac Asia a'r Môr Tawel o gymharu â'r llynedd, gyda chefnogaeth symiau mawr o gyfalaf. Mae’r marchnadoedd Ewropeaidd yn arafu’n amlwg ac wedi disgyn ar draws y rhan fwyaf o sectorau, gan na fu cymaint o fuddsoddi yn y DU, yr Almaen a Sbaen. Mae’r seilwaith preifat wedi perfformio’n dda gan fod cynnydd yn y galw gan fuddsoddwyr wedi arwain at fwy o gystadleuaeth yn y sector, gan roi hwb i’r prisiadau. At hynny, roedd dyledion preifat wedi cynhyrchu enillion iach yn ystod y cyfnod, ac roedd hynny’n cael ei yrru gan alw sefydlog am ariannu.

Ffynhonnell: Partners Group

## Y Daliadau mwyaf – y Deg Uchaf

| Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund | Canran o’r portffolio |
|---|---|
| Baillie Gifford Emerging Markets Bond Fund | 8.4 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7.8 |
| Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund | 5.5 |
| Baillie Gifford Global Income Growth Fund | 5.5 |
| Baillie Gifford Emerging Market Government Bonds (Arian Caled) | 5.5 |
| US Inflation Linked Treasury 0.125% 15/04/2019 | 5.2 |
| US Inflation Linked Treasury 0.625% 15/01/2026 | 4.5 |
| Baillie Gifford Long Term Global Growth Investment Fund | 3.5 |
| Nickel Exchange Traded Commodity | 3.2 |
| Baillie Gifford Worldwide Japanese Fund | 3.0 |

| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | Canran o’r portffolio |
|---|---|
| Arian parod – GBP | 8.3 |
| Societe Generale Perpetual | 4.3 |

| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---:|
| Qatar Natl Bank Perpetual | 3.0 |
| National Bank Abu Dhabi 0.7 01 Ebrill 19 | 2.6 |
| Llywodraeth Gwlad Pŵyl 2.75 25 Ebrill 28 | 2.2 |
| Invesco Global Fund Managers Short Term Investment Sterling | 2.1 |
| Trysorlys Chwyddiant UDA | 2.0 |
| Mecsico 8.0 07 Rhagfyr 23 | 2.0 |
| Mecsico 6.5 09 Mehefin 22 | 2.0 |
| ML Margin OTC | 2.0 |

| Partners Group Generations Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---:|
| GlobalLogic | 3.0 |
| Techem Metering GbmH | 2.2 |
| Hearthside Food Solutions | 2.1 |
| CPA Global | 1.8 |
| United States Infrastructure Corporation | 1.7 |

Sylwer mai dim ond ar gyfer y pum daliad uchaf y mae Partners Group yn darparu gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer y Generations Fund.

| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---:|
| Apple Inc | 3.6 |
| Microsoft Corporation | 3.6 |
| Alphabet | 2.9 |
| Johnson & Johnson | 1.5 |
| Nestle | 1.2 |
| Visa | 1.1 |
| Royal Dutch Shell | 1.1 |
| Procter & Gamble | 1.1 |
| Bank of America | 1.0 |
| Cisco Systems | 1.0 |

| LGIM Managed Property Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Llundain – Safle Strand Island | 4.5 – 4.8 |
| Brentford – Parc Diwydiannol West Cross | 3.9 – 4.2 |
| Dunstable – Stad Ddiwydiannol Woodside | 3.0 – 3.3 |
| Manceinion – One Piccadilly Gardens | 2.7 – 3.0 |
| Llundain – 76-88 Wardour Street | 2.7 – 3.0 |
| Reading – Apex Plaza | 2.7 – 3.0 |
| Basingstoke – Parc Busnes Kingsland | 2.7 – 3.0 |
| Maidenhead – Grenfell Island | 2.4 – 2.7 |
| Bedford – Parc Manwerthu Interchange | 2.4 – 2.7 |
| Birmingham – Rackhams / 43 Temple Row | 1.8 – 2.1 |

| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Giltiau Mynegrifol 1.250% 2055 | 6.1 |
| Giltiau Mynegrifol 0.125% 2068 | 5.6 |
| Giltiau Mynegrifol 0.375% 2062 | 5.6 |
| Giltiau Mynegrifol 0.50% 2050 | 5.0 |
| Giltiau Mynegrifol 0.750% 2047 | 5.0 |
| Giltiau Mynegrifol 1.125% 2037 | 4.9 |
| Giltiau Mynegrifol 0.625% 2040 | 4.8 |
| Giltiau Mynegrifol 0.125% 2044 | 4.7 |
| Giltiau Mynegrifol 0.625% 2042 | 4.6 |
| Giltiau Mynegrifol 1.250% 2027 | 4.4 |

Ffynhonnell: Invesco Perpetual, Partners Group, LGIM a Baillie Gifford.

# Cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019

| Cyfrif y Gronfa | Nodyn | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau a budd-daliadau | | £ | £ |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 4 | 950,895 | 725,017 |
| Cyfraniadau’r cyflogai | 4 | 497,175 | 472,093 |
| Cyfanswm y cyfraniadau | | 1,448,070 | 1,197,110 |
| Llog a dderbyniwyd | | 281 | 89 |
| Incwm arall | | 0 | 0 |
| | | 1,448,351 | 1,197,199 |
| Budd-daliadau a dalwyd neu sy’n daladwy | 5 | (998,634) | (1,097,487) |
| Ffioedd proffesiynol | 10 | (118,054) | (121,963) |
| Treuliau gweinyddol | 8 | (7,148) | (6,304) |
| | | (1,123,836) | (1,225,754) |
| | | | |
| Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau | | 324,515 | (28,555) |
| Incwm buddsoddi | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 11 | 1,688,714 | 1,939,963 |
| Treuliau rheolwyr buddsoddi | 12 | (268,529) | (218,720) |
| Adenillion net ar fuddsoddiadau | | 1,420,185 | 1,721,243 |
| | | | |
| Swm y cynnydd net yn y gronfa | | 1,744,700 | 1,692,688 |
| Asedau net adeg agor y Cynllun | | 35,405,579 | 33,712,891 |
| | | | |
| Asedau net adeg cau'r Cynllun | | **37,150,279** | **35,405,579** |

## 8. Costau Gweinyddol

| | 2018-19<br>£ | 2017-18<br>£ |
|---|---|---|
| Hyfforddiant | 6,228 | 5,439 |
| Costau gweinyddol eraill | 920 | 865 |
| Cyfanswm | 7,148 | 6,304 |

## 9. Cyfryngau Buddsoddi Cronedig

| | 31 Mawrth 2019<br>£ | 31 Mawrth 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Bailie Gifford Diversified Growth Pension Fund | 12,684,960 | 12,398,399 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | 5,227,679 | 5,314,451 |
| Partners Group Generations Fund | 3,744,178 | 3,518,180 |
| L&G Life DP Ethical Global Equity Index Fund | 9,649,470 | 8,558,794 |
| L&G Life C Managed Property Fund | 1,914,027 | 1,861,129 |
| L&G Life AP Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | 3,845,556 | 3,640,670 |
| Cyfanswm | 37,065,870 | 35,291,623 |

## 10. Ffioedd proffesiynol

| | 2018-19<br>£ | 2017-18<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd Actiwaraidd | 55,873 | 68,646 |
| Ymddiriedolwr annibynnol | 12,209 | 12,944 |
| Ymgynghoriaeth fuddsoddi | 21,487 | 18,300 |
| Ymgynghoriaeth arall | 4,700 | 2,500 |
| Ffioedd archwilio | 13,079 | 14,582 |
| Ffioedd cyfreithiol | 10,706 | 4,991 |
| Cyfanswm | 118,054 | 121,963 |

Caiff yr holl ffioedd proffesiynol eu dangos gyda’r Dreth ar Werth (TAW) wedi’i chynnwys.

